# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cyhoeddwyd: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1297A2019-20

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Nick Selwyn, Steve Frank, Sara Leahy, Matt Brushett ac Euros Lake dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio darparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Gwaith archwilio perfformiad 2018-19 4

Mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus 4

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 4

Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19 5

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad 7

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 8

Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19 12

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2018-19

1 I benderfynu ar ystod a natur y gwaith y byddem yn ei wneud yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ystyried faint yr ydym yn ei wybod eisoes o'r holl waith archwilio ac arolygu blaenorol ac o ffynonellau gwybodaeth eraill, gan gynnwys dulliau adolygu a gwerthuso Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ei hun. Ar gyfer 2018-19, gwnaed gwaith asesu gwelliant, prosiect asesu risg a sicrwydd, a gwaith ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhob awdurdod. Mewn rhai awdurdodau, gwnaethom ni ategu'r gwaith hwn ag archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2018-19.

2 Mae'r gwaith a wnaed ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, wedi'i nodi yn Arddangosyn 1.

## Mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus

3 Yn seiliedig ar y gwaith, ac yn gyfyngedig i'r gwaith, a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019-20.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

4 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na byddem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os gwneir cynigion i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwirio yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig, cyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd.

5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, rydym ni wedi gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwella ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd o'i gymharu â'r cynigion hyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (Atodiad 3) yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

# Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19

Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2018-19

Disgrifiad o’r gwaith a wnaed ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, pan fo hynny’n berthnasol.

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| Mehefin 2019 | **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**<br>Archwilio i ba raddau mae’r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau tuag at gyflawni’r amcan llesiant canlynol:<br>• Parhau i archwilio cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau integredig i gyhoedd gogledd Cymru.<br>Yn rhan o’r adolygiad hwn fe wnaethom gynnal arolwg partneriaeth ac asesu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth yr Awdurdod trwy’r Ymweliadau Diogel ac Iach a’r Tîm Atal Tanau Bwriadol. Adroddwyd canfyddiadau’r arolygon hyn yn ein harchwiliad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. | • Mae gan yr Awdurdod hanes o weithgarwch atal hirdymor wedi’i lywio gan ddefnydd da o ddata, ond ceir cyfleoedd i wella’r pwyslais hirdymor ar agweddau eraill ar ei gyllid, cynllunio a gwaith cydweithredol.<br>• Mae integreiddio yn datblygu’n raddol ac mae angen iddo symud i ymrwymiad i integreiddio cynlluniau, strategaethau a gweithgareddau yn wirioneddol.<br>• Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau cadarnhaol o sut y mae’n cynnwys cymunedau mewn lleihau tanau bwriadol a chynnau tanau yn fwriadol, ond mae mwy o waith i’w wneud i sicrhau cynnwys y brif ffrwd yn ei holl waith.<br>• Gall yr Awdurdod ddangos effaith gadarnhaol ei gydweithio â phartneriaid allweddol, ond mae angen iddo ddatblygu a chryfhau ei berthynas ag eraill a’i gyfraniad at amcanion partneriaethau ehangach. | Er na wnaeth ein harchwiliad unrhyw argymhellion, fe wnaeth ein hadroddiad nodi cyfleoedd i wella. Mae’r rhain yn cynnwys:<br>• cyfyngiadau ariannol sy’n atal gallu’r Awdurdod i weithredu rhai agweddau anstatudol ar waith atal posibl;<br>• mwy o le i ddefnyddio data ynghylch pobl agored i niwed, allgau cymdeithasol ac arunigedd i dargedu’r prif risgiau yn fwy;<br>• bydd gwerthuso mentrau atal mewn modd systematig yn helpu i bennu effaith;<br>• mae cydleoli yn effeithiol ond gellid rhannu data â phartneriaid yn fwy;<br>• mae’r cynnydd lleiaf gweladwy yn gysylltiedig â gwella ymgysylltiad a chreu adnodd strategol o ganlyniadau ymgysylltu; ac |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | • Mae atal wrth wraidd gwaith awdurdodau tân ac achub, ac mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'i waith cadarnhaol. Bydd cryfhau trefniadau gwerthuso yn helpu i osgoi dyblygu a chyflawni'r effaith fwyaf. | • mae angen rheoli materion capasiti sy'n deillio o wasanaethu byrddau gwasanaethau cyhoeddus. |
| Mawrth 2019 | **Llythyr archwilio blynyddol 2017-18**<br>Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau.<br>• Ar 21 Medi 2018 cyflwynwyd barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu yr Awdurdod a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.<br>• Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau. | Dim |
| **Cynllunio ac adrodd ar welliant** | | | |
| Mai 2018 | **Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynllun gwella blynyddol**<br>Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant. | Dim |
| Rhagfyr 2018 | **Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r asesiad blynyddol o berfformiad**<br>Adolygiad o asesiad cyhoeddedig o berfformiad yr Awdurdod. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant. | Dim |

# Atodiad 1

## Statws yr adroddiad

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir yn gynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau.'

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 y Mesur, trwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) a yw'n credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a gaiff eu hadrodd i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Gweithgaredd ategol pwysig i'r Archwilydd Cyffredinol yw cydlynu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Meirick Ll Davies (Cadeirydd)
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 OJJ

**Cyfeirnod:** 1107A2019-20

**Dyddiad cyhoeddi:** 3 Mawrth 2019

Annwyl Gynghorydd Davies

### Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2017-18

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o fy nghyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

#### Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yw:

- rhoi systemau rheoli ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodiadau a sicrhau bod ei asedau yn ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi datganiad o gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau, ac adolygu hyn yn gyson.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol imi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn wedi'i seilio ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 21 Medi 2018 cyflwynais:

- farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2017-18 Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân; a
- barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu 2017-18 yr Awdurdod.

Mae fy adroddiad archwilio i'w weld ar dudalennau 9 i 10 o'r Datganiad o Gyfrifon sydd wedi'i archwilio.[1] Cyn imi ardystio datganiadau cyfrifyddu 2017-18, adroddwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o fy archwiliad i aelodau'r Awdurdod yn fy Adroddiad o'r Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 17 Medi 2018. Yn ogystal ag adrodd fy mwriad i gyflwyno barn ddiamod, gwnes i rai argymhellion o ganlyniad i'r materion a nodwyd yn ystod yr archwiliad. Adroddais hefyd un mater sylweddol, gan nodi'r pwyntiau canlynol:[2]

- mae anghyfreithlondeb posibl y taliadau a wnaed o dan gynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân wedi fy atal rhag dod â'r archwiliad i ben; ac
- ni wnaeth yr adroddiad a ystyriwyd yng nghyfarfod mis Mawrth 2018 yr Awdurdod yn ymwneud â Buddion Pensiwn Ychwanegol a'r cofnodion dilynol nodi'n ddigon manwl a oedd yr aelodau yn deall effaith eu penderfyniad ac felly nid oedd hyn yn glir.

Ar 17 Rhagfyr 2018, cymeradwywyd y cynigion i ddatrys y materion yn ymwneud â chynllun pensiwn y Diffoddwyr Tân ac rwyf wedi cael y dogfennau a oedd yn eisiau erbyn hyn. Rwy'n fodlon ar ddull yr Awdurdod a gallaf gyflwyno tystysgrif erbyn hyn yn cadarnhau bod archwiliad datganiadau cyfrifyddu 2017-18 wedi'i gwblhau. Gwelir y dystysgrif hon mewn atodiad ar dudalen 4 o'r Llythyr Archwilio Blynyddol hwn.

## Rwy'n fodlon yr oedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau cyfrifyddu, yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ym mis Medi 2018, o dan y Mesur rwyf wedi cyflwyno fy Adroddiad Gwella Blynyddol 2017-18[3].

Ar sail canlyniadau fy ngwaith, rwy'n fodlon yr oedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau yn 2017-18.

[1] http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338366/v-fire-cs-liasonoff-fa-meetings-full-fire-authority-meetings-2018-170918-pdf-8i-datganiad-o-gyfrifon-a-datganiad-llywodraethu.pdf

[2] http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338367/v-fire-cs-liasonoff-fa-meetings-full-fire-authority-meetings-2018-170918-pdf-8ii-archwiliad-o-ddatganiadau-ariannol.pdf

[3] http://www.archwilio.cymru/cy/system/files/publications/nwfra_air_welsh.pdf

Y ffi archwilio ariannol derfynol ar gyfer 2017 yw £55,050, sef £10,050 yn fwy na’r amcangyfrif a roddais i chi. Mae’r ffi derfynol yn cynnwys £7,000 ychwanegol oherwydd bu’n rhaid i ni wneud llawer o waith ychwanegol o ganlyniad i’r materion a nodwyd yn ystod yr archwiliad ac a adroddwyd i’r Awdurdod ar 17 Medi 2018. Yn ogystal â hyn, ceir ffioedd cyfreithiol o £3,050[4], sef cyfran un rhan o dair yr Awdurdod o’r costau cyfreithiol allanol (caiff y cyfrannau eraill eu codi ar Awdurdodau Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru) a ysgwyddwyd wrth gael cyngor cyfreithiol ar faterion yn ymwneud â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.

Yn gywir



Mark Jones
**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc. Simon Smith, Prif Swyddog Tân
Ken Finch, Swyddog Adran 151
Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol

[4] Codir TAW ar y ffioedd cyfreithiol, sydd wedi’i gynnwys yn y £3,050.

**Tystysgrif Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

## Barn

Fel y nodais yn fy adroddiad dyddiedig 21 Medi 2018, yn fy marn i mae'r datganiad o gyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2018 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

## Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Roedd fy adroddiad dyddiedig 21 Medi 2018 yn cynnwys fy marn archwilio ar gyfrifon 2017-2018 ac yn egluro na allai'r archwiliad ddod i ben yn ffurfiol hyd nes i mi gwblhau fy ystyriaeth o faterion sy'n ymwneud â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.

Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn hyn ac mae materion yr archwiliad wedi'u datrys.

Rwyf yn ardystio felly fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Anthony J Barrett**
**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**19 Mawrth 2019**

**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Atodiad 3

## Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19

### Arddangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19

Crynodeb o'r cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i lywodraeth leol, sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r AGB diwethaf.

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Tachwedd 2018 | [Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig]() | A1 O ganlyniad i newidiadau economaidd-gymdeithasol, seilwaith gwan a newidiadau yn y ffordd o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, mae cymunedau yng Nghymru wledig wedi dod yn elfen weddilliol. **Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu dull mwy integredig o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy:**<br>• **adfywio rhaglenni grant gwledig er mwyn creu strwythurau ariannol cynaliadwy, gyda dyraniadau aml-flwyddyn; a**<br>• **chynorthwyo pobl a busnesau i fanteisio i'r eithaf ar gysylltedd digidol trwy raglenni cymorth busnes ac addysg oedolion mwy effeithiol, wedi eu targedu.**<br>A2 Mae rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn esblygu ond mae yna gyfleoedd i fynegi cydweledigaeth gliriach a mwy uchelgeisiol ar gyfer Cymru wledig (gweler paragraffau 2.2 i |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| | | 2.9 a 2.28 i 2.31). **Argymhellwn fod gwasanaethau cyhoeddus sy'n bartneriaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb yn fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwyneb trwy:**<br>• **asesu cryfderau a gwendidau eu cymunedau gwledig gwahanol gan ddefnyddio Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru ac adnabod y camau lleol a strategol y mae arnynt angen eu cymryd i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol a chytuno arnynt; a**<br>• **sicrhau bod y Cynllun Llesiant Lleol yn cyflwyno gweledigaeth sy'n fwy gobeithiol ac uchelgeisiol ar gyfer 'lle' gyda chydflaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd gan bartneriaid, ar y cyd â dinasyddion, i roi sylw i heriau y cytunwyd arnynt.**<br>A3 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau cyhoeddus angen meddwl yn wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). **Argymhellwn fod cynghorau yn darparu ymateb sy'n fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu trwy:**<br>• **sicrhau bod gan gomisiynwyr gwasanaethau ddata ar gostau a gwybodaeth ansoddol ar y dewis llawn o opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau; a** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | • **defnyddio barn dinasyddion am ba mor fforddiadwy, hygyrch, digonol, derbyniol ac 'ar gael' y mae gwasanaethau'r cyngor i deilwra sut i ddarparu ac integreiddio gwasanaethau.**<br>A4 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau angen gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12).<br>**Argymhellwn fod cynghorau yn gwneud mwy i ddatblygu cydnerthedd cymunedol a hunangymorth trwy:**<br>• **weithio gyda chyrff perthnasol fel Canolfan Cydweithredol Cymru i gefnogi menter gymdeithasol a modelau busnes mwy cydweithredol;**<br>• **darparu allgymorth cymunedol wedi'i deilwra ar gyfer y rheini sy'n wynebu rhwystrau niferus sy'n eu hatal rhag defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael gwaith;**<br>• **gwella ac adnabod rôl cynghorau tref a chymuned trwy fanteisio ar eu gwybodaeth leol a'u cefnogi i wneud mwy;** |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| | | • annog ymagwedd fwy integredig at ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy sefydlu hybiau cymunedol sy'n rhychwantu gwasanaethau cyhoeddus, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;<br>• galluogi gweithredu lleol trwy gefnogi trosglwyddiad asedau cymunedol ac adnabod yr asedau hynny y byddai'n addas eu trosglwyddo, a sicrhau bod y systemau cywir ar waith i wneud i bethau ddigwydd; a<br>• gwella arweiniad yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb, hyfforddiant a choetsio ac annog unigolion i wirfoddoli. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru